Hawdd ei ddeall

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Eich hawl i fyw'n annibynnol

## Ein cynllun ar gyfer cefnogi pobl anabl i fyw bywydau annibynnol

## Mae arnon ni eisiau eich barn erbyn 18 Ionawr 2019



Fersiwn hawdd ei ddeall yw hwn o **'Gweithredu ar gyfer Anabledd: Yr Hawl i Fyw'n Annibynnol a Chynllun Gweithredu'.**

**Hydref 2018**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon

Fersiwn hawdd ei ddeall yw hwn. Mae'r geiriau a'r hyn maen nhw'n feddwl yn hawdd i'w darllen a'u deall.

Efallai na fedrwch chi ddarllen a deall y ddogfen hon heb help. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.

Efallai bydd rhai geiriau yn anodd i'w deall. Mae'r rhain wedi cael eu hysgrifennu mewn **glas trwm** a dywedir beth maen nhw'n feddwl mewn bocs o dan y gair.

Os bydd y gair anodd yn cael ei ddefnyddio eto bydd yn cael ei ysgrifennu mewn glas cyffredin. Gallwch edrych beth maen nhw'n feddwl yn **Geiriau anodd** ar dudalen **38**.

Pan fydd y ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Llywodraeth Cymru**.

## I roi eich barn

Llenwch y ffurflen ymateb erbyn **8 Ionawr 2019.** Efallai y bydd arnoch chi angen help a chefnogaeth i wneud hyn. Gofynnwch i rywun eich helpu. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:

Cyfeiriad: Tîm Cydraddoldeb
Is-adran Cymunedau
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd, CF10 3NQ

E-bost: GweithreduArAnabledd.ActionOnDisability@gov.wales

Gwefan: beta.gov.wales/action-disability-right-independent-living

# Cynnwys

**Tudalen**

Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon....................................................2

Cyflwyniad....................................................4

Ynglŷn â'n cynlluniau....................................................6

Y pethau rydyn ni wedi'u gwneud hyd yn hyn....................................................10

Ein cynllun....................................................13

1. Da eich byd a diogel....................................................14
2. Iach a heini....................................................21
3. Uchelgeisiol ac yn dysgu....................................................26
4. Unedig a chysylltiedig....................................................31

Beth fydd Llywodraeth Cymru yn ei wneud....................................................36

Geiriau anodd....................................................38

Hawdd ei Ddeall Cymru
Easy Read Wales

Cafodd y ddogfen hon ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**.

# Cyflwyniad





Yn 2013 fe ysgrifennon ni gynllun oedd yn cael ei alw'n **Fframwaith Gweithredu ar gyfer Byw'n Annibynnol Llywodraeth Cymru**.



Roedd y cynllun yn gwneud pethau i helpu pobl anabl i gael yr un cyfleoedd â phawb arall.




Yn 2017 fe siaradon ni â phobl anabl a mudiadau. Fe ofynnon ni iddyn nhw:



- Beth roedden nhw'n feddwl oedd wedi gwella ar gyfer pobl anabl



- Beth arall sydd angen ei wneud..


Hawdd ei ddeall

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich hawl i fyw'n annibynnol

Ein cynllun ar gyfer cefnogi pobl anabl i fyw bywydau annibynnol

Mae arnon ni eisiau eich barn erbyn 18 Ionawr 2018

Fersiwn hawdd ei ddeall yw hwn o **'Gweithredu ar gyfer Anabledd: Yr Hawl i Fyw'n Annibynnol a Chynllun Gweithredu'.**

**Hydref 2018**

Roedd barn pobl wedi'n helpu ni i ysgrifennu'r cynllun newydd hwn sy'n cael ei alw'n **Gweithredu ar gyfer anabledd: Yr Hawl i Fyw'n Annibynnol**.



Byddwn ni'n arwain ar y cynllun hwn. Mae arnon ni eisiau i bobl a mudiadau gefnogi'r cynllun hwn yn eu hardaloedd lleol. A gweithio mewn partneriaeth â phobl anabl a'u mudiadau.




Mae arnon ni eisiau eich barn ar y cynllun hwn erbyn 18 Ionawr 2019 os gwelwch yn dda.



Julie James AC

Arweinydd y Tŷ a Phrif Chwip

Gweinidog dros Gydraddoldeb.

# Ynglŷn â'n cynlluniau

Mae byw'n annibynnol yn meddwl:



- Byw bywyd yn y ffordd mae arnoch chi eisiau



- Cael rheolaeth dros eich bywyd



- Gwneud eich dewisiadau eich hun yn eich bywyd



- Cael eich trin ag urddas a pharch



- Cael y gefnogaeth a'r help pan fydd ei angen arnoch er mwyn cael eich cynnwys yn llawn yn y gymdogaeth.

## Model cymdeithasol o anabledd




Rydyn ni’n credu yn y **model cymdeithasol o anabledd** ac mae ein cynllun wedi’i seilio ar hyn.

Mae **model cymdeithasol o anabledd** yn dweud bod pobl anabl yn cael eu hanablu gan rwystrau mewn cymdeithas, nid gan eu hamhariaeth na’r hyn sy’n eu gwneud yn wahanol.

Gall rhwystrau fod yn bethau fel:



- methu mynd i mewn i adeiladau a dim toiledau hawdd eu defnyddio




- dim gwybodaeth hawdd ei deall, braille neu Iaith Arwyddion Prydain



- agwedd pobl tuag at bobl sy’n wahanol. Fel meddwl nad ydy pobl anabl yn gallu gwneud rhai pethau




- polisïau mewn gweithleoedd ac addysg sy'n rhwystro pobl anabl rhag cael gwaith na mynd i'r coleg.





Mae'r cynllun hwn yn cefnogi cyfreithiau'r DU a chyfreithiau byd-eang.




Mae'r cynllun hwn a'i weithredoedd wedi'u seilio ar ein cynllun cenedlaethol **Ffyniant i Bawb**.



Mae'n gynllun cyffredinol gennym i wneud Cymru'n well lle i fyw ynddi rhwng nawr a 2021.



Mae **Ffyniant i Bawb** am i Gymru fod yn:




- **Dda ei byd a diogel** – mae hyn yn cynnwys gwneud Cymru'n lle tecach. A helpu pobl i gael swydd.




- **Iach a heini** – gwella iechyd a lles.



- **Uchelgeisiol ac yn dysgu** – dysgu trwy gydol eich bywyd. Helpu pobl i feddwl eu bod yn medru gwneud mwy.



- **Unedig a chysylltiedig** – dod â phobl at ei gilydd yn eu cymunedau.

# Y pethau rydyn ni wedi'u gwneud hyd yn hyn





Mae'r bennod hon yn dweud beth rydyn ni wedi'i wneud dros y pum mlynedd diwethaf. Ers cynllun byw'n annibynnol 2013.

## Deddfau




Fe ddechreuodd **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014** yn 2016. Y bwriad yw gwella llesiant pobl sydd angen gofal a chefnogaeth. A gofalwyr sydd angen cefnogaeth.




Mae **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** yn egluro saith ffordd o wella llesiant pobl.



Mae gwelliannau wedi bod yn y ffordd y mae asiantaethau gosod tai preifat a landlordiaid yn gorfod gweithio.




Mae gwelliannau wedi bod i **gytundebau tenantiaeth** – hwn yw'r cyntundeb sydd gan bobl â'u landlord. Y mae'n haws i bobl ddeall eu hawliau a'u cyfrifoldebau yn awr



Pan fydd Llywodraeth Cymru yn cael nwyddau a gwasanaethau gan bobl eraill byddwn yn gwneud yn siŵr bod y gymuned yn manteisio. Mae hyn yn cynnwys gwaith a hyfforddiant i bobl anabl.

## Cyflawniadau

Rydyn ni wedi:




- Darparu cynllun cynghori ar fanteision i deuluoedd plant anabl.



- Dweud pa mor dda y dylai gwybodaeth fod ar gyfer pobl sydd wedi colli eu golwg neu golli eu clyw.




- Ysgrifennu canllaw ar gyfer datblygwyr adeiladau newydd ynghylch eu gwneud yn haws eu defnyddio.



- Edrych ar y ffordd rydyn ni'n dosbarthu cymhorthion a gwneud addasiadau i bobl anabl sy'n byw'n annibynnol. Bydd hyn yn ein helpu i wneud gwelliannau.



- Rydyn ni wedi dweud pa mor dda y dylai gwasanaethau bysiau fod. Mae’n rhaid i gwmnïau bysiau weithio i hyn.



- Rydyn ni wedi helpu pobl anabl i gael gwaith trwy brosiect **Cymunedau am Waith**.




- Rhoi arian i **Anabledd Cymru** i redeg prosiect **Galluogi Cymru**. Helpodd hyn bobl anabl i godi ymwybyddiaeth am gydraddoldeb a hawliau. Fe helpon ni ddau fudiad pobl anabl hefyd i ddod yn ganolfannau ar gyfer byw’n annibynnol.

# Ein cynllun




Mae ein cynllun wedi'i seilio ar bedair nod yn ein cynllun cenedlaethol Ffyniant i Bawb. Mae'r bennod hon yn dweud:




- **beth yw'r nodau**



- **beth ddywedodd pobl wrthyn ni**



- **beth rydyn ni'n bwriadu ei wneud.**

# 1. Da eich byd a diogel



Mae arnon ni eisiau i bobl gael safon byw da.



Mae arnon ni eisiau i bobl anabl ei chael hi’n haws cael gwaith. Dim ond 45 o bob 100 o bobl anabl sydd mewn gwaith. Mae’r nifer o bobl ag anabledd dysgu sydd mewn gwaith yn llawer llai na hyn.



Mae arnon ni eisiau i fusnesau wneud yn dda.



Mae arnon ni eisiau i bobl gael y cartrefi sy’n cwrdd â’u hanghenion.



## Gwaith – Y pethau a ddywedodd pobl wrthyn ni

Mae cael gwaith yn bwysig iawn ar gyfer:



- byw'n annibynnol



- llesiant



- hyder



- gwneud ffrindiau.



Y problemau mae pobl anabl yn eu cael i gael gwaith yw:



- Nad yw gwybodaeth yn hawdd ei deall ar gyfer dod o hyd i waith neu ymgeisio am waith



- Dim llawer o gyfleoedd i ddatblygu medrau




- Nid yw cyflogwyr a staff yn meddwl bod pobl anabl yn medru gwneud y gwaith yn dda



- Nid yw pobl yn gwybod am y gefnogaeth y gallan nhw ei chael i'w helpu i wneud y gwaith. Fel y cynllun Mynediad i Waith.

# Gwaith – Y pethau rydyn ni'n cynllunio i'w gwneud




1. Cyflwyno **Cynllun Cyflogadwyedd i Gymru** i helpu pobl anabl gael gwaith. Fe fyddwn ni'n gweithio gyda phartneriaid i edrych beth sy'n rhwystro pobl rhag cael gwaith.



2. Dweud wrth bobl anabl a chyflogwyr am Fynediad i Waith yr Adran Gwaith a Phensiynau.



3. Helpu pobl sy'n dod o ardaloedd tlotach i gael hyfforddiant a phrofiad gwaith i'w helpu i gael gwaith. Bydd hyn trwy ein rhaglen **Cymunedau am Waith**.

4. Gweithio gyda **Busnes Cymru** i hyrywddo gwaith ar gyfer pobl anabl. Gweithio gyda busnesau bach ac ysgolion i gynnal digwyddiadau ynglŷn â dod o hyd i waith.



5. Helpu pobl anabl i gael **prentisiaethau**.


**Prentisiaeth** yw pan fydd person yn dysgu medrau gwaith wrth iddo weithio. Fel arfer maen nhw'n cael llai o dâl gan eu bod yn dal i ddysgu.



Byddwn yn gwneud hyn trwy dalu am **Hyrwyddwr Cydraddoldeb ac Amrywiaeth**. Byddan nhw'n helpu mwy o bobl anabl i gael prentisiaeth.



Fe fyddwn yn ysgrifennu hyfforddiant a chanllawiau i helpu i gefnogi dysgwyr anabl.



Bydd gwybodaeth ar gael am y ffyrdd gorau o weithio.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

6. Rhannu gyda mudiadau'r sector cyhoeddus sut rydyn ni'n cefnogi pobl anabl sy'n gweithio gyda Llywodraeth Cymru.



7. Cychwyn rhwydwaith **Hyrwyddwyr Anabledd** i helpu cyflogwyr i roi gwaith i bobl anabl.



8. Cychwyn **cynllun gwobr anableddau** i wobrwyo cyflogwyr da. Ac annog mwy o gyflogwyr i roi gwaith i bobl anabl.

## Tai – y pethau ddywedodd pobl wrthyn ni



Dywedodd pobl nad oedd digon o dai hawdd eu defnyddio. Yn enwedig yn y sector rhentu preifat.



Mae hyn yn meddwl na all pobl ddewis ble maen nhw'n byw. Mae'n rhaid iddyn fyw mewn mannau sydd ar gael.




Mae'r **dreth ystafell wely** wedi rhwystro pobl rhag byw ble buasen nhw'n hoffi byw. Mae hyn oherwydd eu bod yn gorfod talu am gael ystafell sbâr.



Does dim digon o dai hawdd eu defnyddio'n cael eu hadeiladu.



Mae ar bobl angen bod yn rhan o'r penderfynu pa gymhorthion ac addasiadau sydd eu hangen ar eu cartref.

## Tai – y pethau rydyn ni'n bwriadu eu gwneud



9. Edrych sut mae cymhorthion ac addasiadau'n cael eu rhoi i bobl anabl ac awgrymu sut i wneud hyn yn well.



10. Edrych ar ffyrdd newydd i ddylunio a darparu tai y gall pobl eu fforddio.




11. Ar gyfer pobl sydd angen cefnogaeth i gael tŷ mewn argyfwng, fe fyddwn yn darparu arian drwy'r **Gronfa Cymorth Dewisol**.

## Helpu pobl sy'n dlawd – y pethau rydyn ni'n bwriadu eu gwneud




1. Mae arnon ni eisiau helpu pob grŵp o bobl sydd dan anfantais ac sydd yn dlawd. Byddwn yn edrych sut mae newidiadau i fudd-daliadau yn effeithio ar bobl. Fe fyddwn yn edrych ar wybodaeth y mae pobl wedi ei rhoi i ni trwy arolygon.

## 2. Iach a heini




Mae arnon ni eisiau i bobl fod yn iachach ac yn fwy heini.




Mae arnon ni eisiau rhwystro pobl rhag mynd yn sâl. Neu bod eu cyflwr yn mynd yn waeth a'u bod angen triniaeth yn ddiweddarach.



Nid oes gan bobl anabl yr un cyfleoedd o ran gofal iechyd â phobl eraill. Er enghraifft nid yw pobl anabl yn byw mor hir â phobl eraill. Ac nid ydyn nhw'n cael gwybodaeth mewn ffordd y gallan nhw ei deall.

### Iach a heini – y pethau ddywedodd pobl wrthyn ni



Mae angen gwneud pethau'n well o ran cael gafael ar y gofal iechyd iawn. Mae rhai pobl anabl angen cefnogaeth i gyfathrebu. Neu mwy o amser mewn apwyntment gyda'r meddyg.



Nid yw pobl anabl yn cael cymryd digon o ran mewn cynllunio a rhedeg gwasanaethau gofal a chefnogaeth.




Mae'n anodd cael gwasanaethau iechyd meddwl.



Gall **technoleg bersonoledig** fod yn ddefnyddiol ar gyfer pobl anabl i helpu â gofal cymdeithasol ac anghenion gofal iechyd.



Offer yw **technoleg bersonoledig** i'ch helpu i wneud pethau ar eich pen eich hun. Er enghraifft, teclyn codi i'ch codi allan o'r gwely neu gyfrifiadur i'ch helpu i siarad.




Mae rhai pobl ifainc anabl yn ei chael hi'n anodd cael gwasanaethau iechyd rhywiol.




Mae toriadau wedi bod sydd wedi arwain at lai o arian ar gyfer cefnogaeth i bobl anabl. Mae hyn yn effeithio ar les.




Does dim digon o wybodaeth na chefnogaeth i bobl ifainc anabl sydd am symud allan o gartref y teulu.

## Iach a heini – y pethau rydyn ni'n bwriadu eu gwneudo



2. Edrych a yw ein cynllun i wella cyfathrebu mewn ysbytai i bobl sydd wedi colli eu clyw neu sydd wedi colli eu golwg yn gweithio.




3. Ei gwneud hi'n haws i bobl anabl ddefnyddio'r **gwasanaeth gwybodaeth a chymorth** yn y gwasanaethau cymdeithasol ac ar **linell gymorth cyngor dros y ffôn maes iechyd**. Gwasanaeth dros y ffôn 111 Galw Iechyd Cymru y GIG yw hwn.




4. Creu system gan ddefnyddio'r rhyngrwyd fel bo pobl yn gallu rheoli eu hiechyd a'u lles.



5. Rhoi llais i bobl anabl i chwilio am ffyrdd newydd i edrych pa mor dda y mae gwasanaethau eiriolaeth yn gweithio i blant a phobl ifainc.



6. Rhoi ein cynllun ar gyfer pobl sydd wedi colli eu golwg ar waith. Helpu mwy o bobl sydd wedi colli eu golwg i gael y gwasanaethau sydd eu hangen arnyn nhw trwy weithio gyda **Gwasanaeth Golwg Gwan Cymru**.



**Byddar**

7. Rhoi ein cynllun ar gyfer pobl fyddar ar waith. Cefnogi pobl fyddar a phobl sydd wedi colli eu clyw i gael y gwasanaethau sydd eu hangen arnyn nhw.



8. Rhoi ein cynllun ar gyfer awtistiaeth ar waith. Cefnogi plant, pobl ifainc ac oedolion sydd ag awtistiaeth i gael y gwasanaethau sydd eu hangen arnyn nhw.





9. Rhoi £13 miliwn i ddarparu gwasanaeth llawn i bobl ag awtistiaeth. Bydd hyn yn cynnwys edrych a oes awtistiaeth ar rywun, cefnogi teuluoedd a hyfforddi staff.




10. Helpu i roi'r cynllun newydd i bobl ag anabledd dysgu, sy'n cael ei alw'n **Gwella Bywydau**, ar waith.



11. Gweithio gyda gwasanaethau iechyd i helpu pobl i ymdopi â'u anhwylderau tymor hir trwy ddefnyddio technoleg bersonoledig.



12. Rhoi cynllun ar gyfer iechyd meddwl ar waith. I helpu pobl i gael y gwasanaethau sydd eu hangen arnyn nhw. Ac i gael y gwasanaethau hyn yn gynt. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth a chanllawiau i ymddiriedolaethau iechyd. A hyfforddiant cydraddoldeb ar gyfer staff gofal iechyd.




13. Rhoi mwy o arian i **Chwaraeon Anabledd Cymru** i helpu pobl anabl i gymryd rhan mewn mwy o weithgareddau.

## 3. Uchelgeisiol ac yn dysgu



Mae arnon ni eisiau i bobl fod y gorau y gallan nhw fod. A dysgu trwy gydol eu bywydau a chyflawni'r pethau y mae arnyn nhw eisiau eu cyflawni.



Mae'n bwysig bod plant anabl yn teimlo eu bod yn gallu cyflawni'r pethau y mae arnyn nhw eisiau mewn bywyd o oedran ifanc.



Mae ar bobl angen gwybodaeth a chyngor da i'w helpu i wneud y dewisiadau iawn.



### Addysg – y pethau ddywedodd pobl wrthyn ni



Mae ysgolion, colegau a chyflogwyr yn dal i feddwl nad yw pobl anabl yn medru cyflawni llawer.



Mae plant ifainc anabl angen cefnogaeth o oedran ifanc.



Mae angen delio'n well â bwlio plant anabl yn yr ysgol.



Nid yw rhai ysgolion prif ffrwd yn cwrdd ag anghenion plant ag anabledd corfforol yn dda iawn.



Does dim digon o ddewisiadau na help i bobl ifainc anabl fynd yn eu blaenau mewn:



- addysg



- gwirfoddoli




- cael gwaith.




Yn aml nid oes gan bobl ifainc ag anabledd dysgu brofiad gwaith. Neu nid yw'n arwain ymlaen at gael gwaith iddyn nhw.




Mae awdurdodau lleol wedi torri dosbarthiadau addysg bellach. Mae hyn yn meddwl bod llai o gyfleoedd i blant anabl wneud ffrindiau.

## Addysg – y pethau rydyn ni'n bwriadu eu gwneud



1. Rhoi ein cynllun ar gyfer plant a phobl ifainc ag anghenion dysgu ychwanegol ar waith. Bydd hyn yn cynnwys gwneud yn siŵr ein bod yn cwrdd ag anghenion pobl yn gynnar. A bod dysgwyr yn cael eu cefnogi mewn addysg.



2. Helpu pobl anabl, gan gynnwys pobl ag anabledd dysgu i gael addysg bellach – 16 oed a thros hynny.



3. Gwneud yn siŵr bod myfyrwyr anabl yn cael eu cefnogi yn iawn mewn addysg uwch – 18 oed a thros hynny. Byddwn yn gwneud yn siŵr bod y **Lwfans i Fyfyrwyr Anabl** yn gweithio'n iawn.

## Cefnogaeth i deuluoedd – y pethau rydyn ni'n bwriadu eu gwneud



1. Rhoi ein rhaglen **Teulu yn Gyntaf** ar waith. Mae arnon ni eisiau i awdurdodau lleol ddatblygu mwy o wasanaethau arbenigol i deuluoedd sydd â phlentyn anabl.



2. Gweithio gyda **Chwarae Cymru**. Bydd Chwarae Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol i helpu canolfannau ac ardaloedd chwarae fod yn haws eu defnyddio. A chynnwys plant anabl.



3. Helpu rhieni plant anabl sy'n awyddus i ddysgu neu gael swydd. Byddwn yn gwneud hyn trwy wneud yn siŵr bod awdurdodau lleol yn darparu'r gofal plant iawn.

## Gwybodaeth a chyngor – y pethau ddywedodd pobl wrthyn ni




Mae gormod o wybodaeth sydd ar gael ar y rhyngrwyd yn unig erbyn hyn. Nid yw pob person anabl yn gallu defnyddio cyfrifiadur neu does ganddyn nhw ddim ffôn symudol.




Mae ar bobl angen gwybodaeth hawdd ei deall neu gefnogaeth i ddeall gwybodaeth. Nid yw hyn bob amser ar gael.




Does dim digon o wasanaethau cynghori wyneb yn wyneb. Mae **Cyngor ar Bopeth** yn dda ond gall gwybodaeth fod yn benodol ar gyfer anghenion pobl anabl.

## Gwybodaeth a chyngor – y pethau rydyn ni'n bwriadu eu gwneud




1. Rhoi ein **Cynllun Gweithredu Gwybodaeth a Chyngor** ar waith. Bydd hyn yn helpu pobl i gael gwell gwybodaeth a chyngor ar bethau fel cartrefu, cael gwaith ac arian.



2. Rhoi ein cynllun ar gyfer gwneud yn siŵr bod gwybodaeth a chyngor o safon dda ar gyfer pobl anabl ar waith.



3. Hyrwyddo model cymdeithasol o anabledd yn Llywodraeth Cymru ac ar draws Cymru. Byddwn yn rhedeg cyrsiau ac yn cynnwys y model ym mhopeth rydyn ni'n wneud.

## 4. Unedig a chysylltiedig

Mae arnon ni eisiau i:



- Bobl ddod at ei gilydd a chymryd rhan yn eu cymunedau.




- Mwy o arian gael ei ennill a'i wario yng Nghymru.



- Pobl fod yn hyderus a balch o Gymru.




Mae cludiant yn bwysig i helpu pobl fod mewn cysylltiad â'i gilydd.



Mae cael gwybodaeth mewn ffordd **ddigidol** yn bwysig i helpu pobl fod mewn cysylltiad â'i gilydd.

Mae **digidol** yn wybodaeth sy'n cael ei anfon a'i dderbyn trwy ddefnyddio cyfrifiaduron a dyfeisiadau eraill fel 'iPads' neu ffonau clyfar.

## Unedig a chysylltiedig – y pethau ddywedodd pobl wrthyn ni



Mae cludiant yn bwysig iawn i bobl anabl fynd i'r gwaith, cyfarfod â ffrindiau a defnyddio gwasanaethau. Ond nid yw hi bob amser yn hawdd defnyddio cludiant cyhoeddus.



Does dim digon o le mewn bysiau. Mae'n rhaid i chi neilltuo lle ar y tren os ydych chi'n defnyddio cadair olwyn.



Mae symud o gwmpas mewn mannau cyhoeddus yn anodd i bobl anabl. Yn aml mae'n anodd symud o gwmpas mewn gwahanol fannau a'r tu mewn i adeiladau.




Mae’n anodd defnyddio gwasanaethau hamdden. Yn aml mae ar bobl angen help eu gweithiwr cefnogi i’w defnyddio.



Does dim digon o fannau hawdd eu defnyddio yn y gymuned i bobl gynnal digwyddiadau cymdeithasol.



Does dim digon yn cael ei wneud i helpu pobl i bleidleisio mewn etholiadau. Mae ar bobl ifainc anabl eisiau mwy o gyfleoedd i ddysgu am eu hawliau a gwleidyddiaeth.



Nid yw pobl anabl yn cael bod yn rhan o bethau yn ddigon cynnar, neu ddim o gwbl, pan fydd gwasanaethau cyhoeddus yn gwneud cynlluniau yn eu hardaloedd.

# Unedig a chysylltiedig – y pethau rydyn ni'n bwriadu eu gwneud




1. Gwella cludiant cyhoeddus ar gyfer pobl anabl. Mae hyn yn cynnwys:



- gweld beth yw barn pobl am orsafoedd rheilffordd



- gwneud yn siŵr bod gorsafoedd yn cael eu llunio'n addas i bobl anabl eu defnyddio



- edrych pa mor hawdd eu defnyddio yw gwasanaethau bysiau lleol



- hyfforddiant ymwybyddiaeth o anabledd ar gyfer gyrwyr bysiau



- edrych pa mor hawdd ei ddefnyddio yw'r gwasanaeth awyr o'r Gogledd i Dde Cymru.



2. Helpu pobl anabl ddefnyddio’r rhyngrwyd, cyfrifiaduron a thechnoleg i gael yr wybodaeth sydd ei hangen arnyn nhw.




3. Rhoi ein cynllun i fynd i daclo trosedd casineb a bwlio yn erbyn pobl anabl ar waith. Fe fyddwn yn gweithio gyda phartneriaid i atal trosedd casineb a helpu dioddefwyr trosedd casineb.



4. Helpu mwy o bobl i ymgeisio mewn etholiadau awdurdodau lleol. Gall hyn gynnwys arian i’w helpu i redeg ymgyrch etholiadol i gael pobl i bleidleisio iddyn nhw.



5. Gweld faint o bobl sy’n ceisio cael lle ar fwrdd y sector cyhoeddus i weld a oes problemau.




6. Gweithio gyda phartneriaid i wneud gwybodaeth yn haws ei deall i ymwelwyr anabl sy’n dod i Gymru.



7. Edrych ar wella mynediad i gestyll a safleoedd hanesyddol yng Nghymru. Bydd hyn yn cynnwys gofyn barn pobl anabl.

# Beth fydd Llywodraeth Cymru yn ei wneud

Rydyn ni wedi ymrwymo i:





- Wneud yn siŵr bod y cynllun hwn yn cael ei ddefnyddio yn ein holl waith ar gydraddoldeb.




- Gwneud yn siŵr bod y cynllun hwn yn cael ei wirio a'i ddiweddaru.




- Hawliau pobl anabl – fel yng **Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau**.




- Yr un cyfleoedd mewn bywyd â phawb arall – fel yn **Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**.




- Model cymdeithasol o anabledd.



Cynnwys pobl anabl yn ein gwaith a'n cynlluniau.



Defnyddio iaith a lluniau sy'n hyrwyddo hawliau a chydraddoldeb.




Gwneud gwybodaeth hawdd ei deall i gwrdd ag anghenion pobl.



Gwneud yn siŵr bod ein staff yn cael hyfforddiant ar gydraddoldeb ac amrywioldeb. A gwneud yn siŵr bod mudiadau eraill yn gwneud yr un peth.

# Geiriau anodd

## Digidol

Mae digidol yn wybodaeth sy'n cael ei anfon a'i dderbyn trwy ddefnyddio cyfrifiaduron a dyfeisiadau eraill fel 'iPads' neu ffonau clyfar.

## Model cymdeithasol o anabledd

Mae model cymdeithasol o anabledd yn dweud bod pobl anabl yn cael eu hanablu gan rwystrau mewn cymdeithas, nid gan eu hamhariaeth na'r hyn sy'n eu gwneud yn wahanol.

## Prentisiaethau

Prentisiaeth yw pan fydd person yn dysgu medrau gwaith wrth iddo weithio. Fel arfer maen nhw'n cael llai o dâl gan eu bod yn dal i ddysgu.

## Technoleg bersonoledig

Offer yw technoleg bersonoledig i'ch helpu i wneud pethau ar eich pen eich hun. Er enghraifft, teclyn codi i'ch codi allan o'r gwely neu gyfrifiadur i'ch helpu i siarad.